



Grant Cymunedol

Beth ydy Grant Cymunedol Grŵp Cynefin?

Cynllun grant hyd at £500 sydd ar gael i grwpiau o fewn ardal weithredol Grŵp Cynefin (chwe sir gogledd Cymru yn ogystal â gogledd Powys). Gall grwpiau gwirfoddol, grwpiau cymunedol neu grwpiau o drigolion sy'n dymuno dod at ei gilydd yn yr ardal maen nhw'n byw ynddo wneud cais am grant. Mae'r grant ar gael i grwpiau sydd eisiau gwneud gwahaniaeth i'w cymunedau lleol. Does dim rhaid bod yn grŵp gyda chyfansoddiad.

Sut fedrwn ni helpu eich grŵp a'ch cymuned chi?

Rydym yn medru ariannu prosiectau sy'n cyflawni un (neu fwy) o'r canlynol:

- Gwella'r ardal mae'r grŵp yn byw ynddo
- Trefnu digwyddiad i ddod â'r gymuned at ei gilydd
- Cael pobl ifanc yn rhan o'r prosiect
- Datblygu cyfleoedd chwarae a hamdden i blant a phobl ifanc
- Cynnwys yr holl gymuned
- Gwella'r amgylchedd
- Gwneud pobl yn fwy saff a diogel
- Creu lle ar gyfer bywyd gwyllt
- Gwella lles y gymuned trwy annog ffordd o fyw sy'n actif ac iach
- Cynnwys pobl o bob oedran a galluoedd yn y gymuned
- Hybu'r iaith Gymraeg
- Ymateb i heriau yn dilyn Covid-19

Mae'r Panel Grantiau yn cyfarfod 6 gwaith y flwyddyn a dylid cyflwyno ceisiadau erbyn **12pm ar 1af o Chwefror, Ebrill, Mehefin, Awst, Hydref, Rhagfyr**. Byddwn yn gadael i chi wybod a fu eich cais yn llwyddiannus ai peidio o fewn wythnos wedi'r Panel Grantiau gyfarfod. Nid yw grŵp yn gallu cyflwyno cais arall o fewn cyfnod o 12 mis e.e. os ystyrir cais ym mhanel grantiau mis Ebrill, ni fydd y cais nesaf yn cael ei ystyried tan y mis Ebrill canlynol.

Ydy pawb yn cael gwneud cais*?

Ni fedrwn ystyried ceisiadau:

- Tuag at costau rhedeg
- Tuag at brosiect ar ei ben ei hun/digwyddiad sy'n dechrau/am ddiwydd cyn cyfarfod y Panel Grantiau
- Gan cwmnïau sy'n ceisio gwneud elw
- Gan unigolion
- Gan ysgolion ar gyfer gweithgareddau prif ffrwd a ddylai gael eu hariannu o ffynhonnell arall
- Gan grwpiau ar gyfer gweithgareddau crefyddol

Am gyngor neu i drafod os yw'ch prosiect yn gymwys, cysylltwch â'r Tîm Mentrau Cymunedol ar 0300 111 2122 neu e-bostiwch mentraucymunedol@grwpcynefin.org

Mae ein ffurflen gais ar gael i'w lawrlwytho ar-lein o'n gwefan (grwpcynefin.org) neu cysylltwch â ni ar y manylion uchod i gael copi yn y post.

* Noder – bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i geisiadau o fewn cymunedau lle mae gan Grŵp Cynefin bresenoldeb.

